# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 11.01.17 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Geraint Edwards (Cadeirydd), Dylan Thomas, Huw Davies, Ian Williams, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Micah, Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** Avril Garrod, Eleri Williams, Karen Shellis, Louise Hughes.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14.12.16 yn gywir.
   **Cynnig** – Keith Carroll **Eilio** – Kevin Goodchild **Arwyddwyd** – Geraint Edwards.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (14.12.16):**

   a) **Hysbysfwrdd Newydd yn Llwyngwril -** dau saer coed lleol wedi dangos diddordeb i wneud y gwaith, ond angen "spec" cyn gallu cyflwyno eu pris
   **Penderfyniad** ➞ gofyn i Greenbarnes am bris "Self-healing Pinboard" 1200 x 800, a wedyn cysylltu â saer.

   b) **Garddwest Palas Buckingham -** Keith Carroll wedi dangos diddordeb i fynychu Garddwest Mis Mai 2017
   **Penderfyniad** ➞ aelodau i gyd yn hapus iddo gynrychioli'r Cyngor Cymuned.

   c) **Arolygon Etholiad Gwynedd –** cyflwyniad wedi ei drefnu gan y Comisiwn Ffiniau ar yr adolygiad etholiadol.
   **Penderfyniad** ➞ atgoffa pawb o'r manylion yn y cyfarfod nesaf.

5. **Gohebiaeth:**

   a) **Cymorth Canser Mcmillan –** llythyr yn gofyn am gymorth ariannol
   **Penderfyniad** ➞ pawb yn gytûn i gefnogi = £50.00. **Cynnig:** Kevin Goodchild **Eilio:** Geraint Micah.

6. **Materion Cynllunio:**

   a) **NP5/69/390A: Fferm Llabwst, Rhoslefain –** Newidiadau i gais sydd wedi ei gymeradwyo eisoes, yn cynnwys estyniad deulawr, estyniad linc unllawr, ail-doi a throsi twlc mochyn yn sied beics a storfa. Codi ports a gosod ffenestri a ffenestri to.
   **Penderfyniad** ➞ dim sylwadau i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

7. **Adroddiad Ariannol**: Derbyniwyd Adroddiad Mis Rhagfyr 2016 yn gywir.
   **Cynnig –** Ian Williams **Eilio –** Kevin Goodchild **Arwyddwyd –** Geraint Edwards.

   a) Adolygiad ariannol ar gyfer cyllid 2017/18 wedi ei wneud.

   b) **Praesept y Cyngor Cymuned ar gyfer 2017/18 =** Cais i'w gyflwyno i Gyngor Gwynedd cyn diwedd y mis.
   **Penderfyniad** ➞ **£7,800.00** = (£3,900.00 i'w dalu Mis Mai a Mis Medi 2017).
   **Cynnig:** Huw Davies **Eilio:** Keith Carroll.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Ddim yn bresennol.

10. **Unrhyw Fater Arall:**

a) **Polisi Iaith y Cyngor Cymuned -** polisi wedi ei adolygu a phawb yn gytûn gyda'r adolygiad.

b) **Prisiau am dorri'r llwybrau –** Llwybr y Perthi a Llwybr y Crynwyr = Mis Mai, Gorffennaf a Medi
- Cof Golofn = Mis Mai, Gorffennaf, Medi a Thachwedd
- Mynwent y Crynwyr = Mis Mai, Gorffennaf a Medi

**Penderfyniad** ➞ Pawb y gytûn i yrru "spec", a gofyn am bris gan Geraint Micah, Kevin Jones a Daniel Jones.

c) **Goleuadau Nadolig at flwyddyn nesaf --** ? Archebu bylbiau spar fel yn y gorffennol, neu gael goleuadau LED ?
**Penderfyniad** ➞ cael pris gan Turnocks am oleuadau LED i ddefnyddio gyda'r "transformer" presennol.

d) **Coed Nadolig -** Kevin Goodchild wedi clirio'r goeden yn Llwyngwril. Coeden Rhoslefain i gael ei chlirio yn fuan.

e) **Mainc yn Rhoslefain -** Dylan Thomas wedi cynnig cael gwared â'r hên fainc o Roslefain.

f) **Gwasanaeth Ieuenctid - Cyngor Gwynedd -** gan fod y Clwb Ieuenctid wedi dod i ben yn Llwyngwril, gyda arian yn dal ar ôl yn y pot, mae Gwasanaeth Ieuenctid, Cyngor Gwynedd, wedi cysylltu â'r Cyngor Cymuned i ofyn am syniadau ar sut y gall yr arian yma gael ei ddefnyddio i fudd pobl ifanc y plwyf.
Mae nhw wedi awgrymu defnyddio'r arian i brynu offer i roi yn y cae chwarae?
**Penderfyniad** ➞ cysylltu â'r Gwasanaeth Ieuenctid i adael iddynt wybod mai'r Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol am y Cae Chwarae. Felly, a fyddai'r Gwasanaeth Ieuenctid yn fodlon trosglwyddo'r arian i'r Cyngor Cymuned? <u>Gall y Cyngor Cymuned wedyn glustnodi'r arian yma i'w ddefnyddio yn y cae chwarae yn unig</u>.

g) **Defibrillator –** aelodau o'r First Responders yn ceisio cael grantiau i brynu Defibrillator i'r gymuned ddefnyddio. Maent yn gobeithio rhoi un ar y wal tu allan i'r Ganolfan yn Llwyngwril.

h) **Tyrchod yn y Cae Chwarae -** Geraint Micah yn cynnig i Grace a Rachel rhoi trapiau yn y Cae Chwarae, i ddal y tyrchod, ond rhaid cau'r cae chwarae am tuag wythnos i wneud y gwaith yn ddiogel.
Codi tâl o £10.00 am bob twrch maent yn ei ddal.
***Geraint Micah yn datgelu ar lafar fod ganddo fuddiant personol (perthyn), felly arhosodd yn y stafell ond nid oedd yn cymryd rhan - ffurflen wedi ei llenwi gyda'r manylion a'i harwyddo gan Geraint yn y cyfarfod.***
**Penderfyniad** ➞ Huw Davies yn awgrymu gofyn i Grace a Rachel wneud y gwaith a rhoi arwydd ar y giât i gau'r cae chwarae tra bod y traps yn eu lle. **Cynnig:** Kevin Goodchild. **Eilio:** Dylan Thomas.

**<u>Materion Cymunedol</u>**

i) **Wal ger cornel Cae Du - Rhoslefain:** wal wedi cael difrod eto, ac angen ei thrwsio.

j) **Llwyn/coeden draen duon yn Rhoslefain:** yn tyfu'n wyllt ar waelod y "green" o flaen stâd Glyn Bedw yn Rhoslefain.
**Penderfyniad** ➞ llythyr i Gyngor Gwynedd i ofyn a ydi'n bosib iddynt roi sylw i'r materion yma.

## <u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher - 08.02.17 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan</u>

**<u>Arwyddwyd</u>**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………… Dyddiad ………………………………**